EESW STEM Cymru

UNDEB EWROPEAIDD EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Cronfa Gymdeithasol Ewrop European Social Fund

The Big Bang Wales / Cymru

# EESW 2019-20 Video Preparation Guide

EESW were very disappointed that our 30th year EESW Awards & Presentation Day celebration events were cancelled this year due to COVID-19.

We would like to invite you to send us a video of your team presenting your EESW project brief, design and solution.

This competition is entirely optional and standalone from the EESW written project assessment.

Awards will be given for various categories, and teams who do not wish to enter a video will still be eligible for receiving awards. For a list of awards confirmed please visit our website at [http://www.stemcymru.org.uk/home/activities/eesw-project-ks4/](http://www.stemcymru.org.uk/home/activities/eesw-project-ks4/)

The most important thing to remember is that you have already done most of the preparation – the project presentation you will film should be the same presentation you had planned to deliver, so you can tweak and record what you were hoping to present to us at the awards day.

**We are sure that some of you will be very creative in how you present your projects, but don't forget it is what you say that counts!**

## Video Content Guidelines

As a team, prepare a short video to present your project (maximum of 15 minutes in length). The video should include the following aspects:

- Introduce team members and roles and your link company
- Discuss your design brief and options you considered
- Demonstrate why you chose your final design, including any prototype/models/drawings
- Explain any commercial, social or environmental impacts of your solution, and any benefits to your link company
- Provide a summary of how you evaluated your project
- Finally, make suggestions to your link company for further investigation or how they could implement your design

# Making your video presentation

## Length

Your video should be no longer than 15 minutes (including any introduction/title screens), meaning that you will need to include everything as concisely as possible.

## Filming method

You can record your video using any device available to you, including mobile phone, camera, tablet, laptop etc.  Although video quality isn't important, please make sure that spoken voices can be heard clearly and any images or written work are visible.  Remember to speak clearly and slowly!

## Format

Your video can be created in any app you wish, however where possible please submit final files in easily readable formats such as MP4, MOV, AVI etc.  Please try to reduce file sizes where possible if being sent via email (compress to 1GB maximum).  Alternatively, you can send your file via https://wetransfer.com/ to submissions@eesw.org.uk.

## What to include

Your video can include title screens with your school and company logos (please ask their permission) if you wish, but these are not required.

It can include PowerPoint or slides with voiceover, diagrams, images, photographs, drawings etc, and you can include music if you wish, but please ensure that your voices can be heard - what you say counts!

## Involve all of your team

Ensure that all members are involved in making the video as this is a team video presentation.  Be creative - everyone has different skills they can use!

## Involve your teacher and company

Ensure that you send your video to your teacher to check that it adheres to your school's policies, for example, digital and use of ICT, health and safety, safeguarding etc.  Remember that your company will need to see your video as well.

## Video Permissions

- Any videos submitted to us will be shared with our assessors and award sponsors, many of whom are professional engineers in industry. Please ensure that **no confidential information** is included within your video about your link company.
- Please ensure your link company views your draft video prior to submission and you incorporate their feedback into the final production.
- Do not include any material which is not yours (e.g. company videos, website pages that may be copyrighted etc).
- Please do not share any videos **publicly** online. If you are using file sharing methods to submit your video, please refer to the **Format** section above.
- If you are selected as an award winner, EESW/STEMCymru will contact you for permission to share your video on our website and social media for publicity/marketing purposes.
- Please also remember to ask permission from your team members to share any video clips they send you!

## Hints & Tips

- ✓ Remember, you do not all have to be physically together for the video - you can record short clips and edit them together to create one video (whilst obeying social distancing rules!)
- ✓ You will not be judged on the quality of video editing; we will be more impressed by what you say and how you present your project
- ✓ If you have drawings, models, prototypes or even CAD designs, please show us!
- ✓ Don't forget, we will only be able to judge you on what you've sent in your video, so think carefully about how to communicate your project concisely and make sure everything is included

## Closing Date

Entries can either be emailed to submissions@eesw.org.uk or shared with us via WeTransfer (or other file share).

The closing date for entries **Wednesday 30th September 2020** to give teams as much time as possible to contact team members, teachers and companies.

EESW Cymru STEM

Llywodraeth Cymru Welsh Government
UNDEB EWROPEAIDD EUROPEAN UNION
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

The Big Bang Wales / Cymru

# EESW 2019-20 Canllaw Paratoi Fideos

Roedd Cynllun Addysg Peirianneg Cymru (EESW) yn siomedig iawn bod ein digwyddiadau Diwrnod Gwobrau a Chyflwyno i ddathlu ein 30ain blwyddyn wedi'u canslo eleni oherwydd COVID-19.

Hoffem eich gwahodd i anfon fideo atom o'ch tîm yn cyflwyno brîff, dyluniad a datrysiad eich prosiect EESW.

Mae'r gystadleuaeth hon yn gwbl ddewisol ac yn annibynnol ar asesiad prosiect ysgrifenedig EESW.

Bydd gwobrau'n cael eu rhoi ar gyfer gwahanol gategorïau, a bydd timau nad ydynt yn dymuno cyflwyno fideo yn dal i fod yn gymwys i dderbyn gwobrau. Am restr o wobrau a gadarnhawyd, ewch i'n gwefan yn https://www.stemcymru.org.uk/cartref/gweithgareddau/prosiect-eesw/

Y peth pwysicaf i'w gofio yw eich bod eisoes wedi gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith paratoi – dylai cyflwyniad y prosiect y byddwch yn ei ffilmio fod yr un cyflwyniad yr oeddech wedi bwriadu ei gyflwyno. Felly, gallwch chi fireinio a recordio'r hyn yr oeddech yn gobeithio ei gyflwyno i ni yn ystod y diwrnod gwobrwyo.

**Rydym yn sicr y bydd rhai ohonoch yn greadigol iawn o ran sut rydych yn cyflwyno eich prosiectau, ond peidiwch ag anghofio mai'r hyn rydych yn ei ddweud sy'n cyfrif!**

## Canllawiau Cynnwys Fideo

Fel tîm, paratowch fideo byr i gyflwyno eich prosiect (uchafswm o 15 munud o hyd). Dylai'r fideo gynnwys yr agweddau canlynol:

- Cyflwynwch aelodau'r tîm a rôl pob un a'ch cwmni cyswllt
- Trafodwch eich brîff dylunio a'r opsiynau a ystyriwyd gennych
- Dangoswch pam eich bod wedi dewis eich dyluniad terfynol, gan gynnwys unrhyw brototeip/modelau/lluniadau
- Esboniwch unrhyw effeithiau masnachol, cymdeithasol neu amgylcheddol a ddaw o'ch datrysiad, ac unrhyw fuddion i'ch cwmni cyswllt
- Rhowch grynodeb o sut y gwnaethoch werthuso eich prosiect
- Yn olaf, gwnewch awgrymiadau i'ch cwmni cyswllt iddynt fedru ymchwilio ymhellach neu egluro sut y gallent roi eich dyluniad ar waith

# Gwneud eich cyflwyniad fideo

## Hyd

Ni ddylai eich fideo fod yn hwy na 15 munud (gan gynnwys unrhyw sgriniau cyflwyno/teitl), sy'n golygu y bydd angen i chi gynnwys popeth mor gryno â phosibl.

## Dull ffilmio

Gallwch recordio eich fideo gan ddefnyddio unrhyw ddyfais sydd ar gael i chi, gan gynnwys ffôn symudol, camera, tabled, gliniadur ac ati. Er nad yw ansawdd fideo yn bwysig, gwnewch yn siŵr bod modd clywed lleisiau'n siarad yn glir a bod unrhyw ddelweddau neu waith ysgrifenedig yn weladwy. Cofiwch siarad yn glir ac yn araf!

## Fformat

Gallwch greu eich fideo gan ddefnyddio unrhyw ap y dymunwch. Fodd bynnag, lle bo'n bosibl, cyflwynwch ffeiliau terfynol mewn fformatau hawdd eu darllen fel MP4, MOV, AVI ac ati. Ceisiwch leihau maint ffeiliau lle bo hynny'n bosibl os ydych yn eu hanfon drwy e-bost (cywasgu i uchafswm o 1GB). Fel arall, gallwch anfon eich ffeil drwy https://wetransfer.com/ i submissions@eesw.org.uk.

## Beth i'w gynnwys

Gall eich fideo gynnwys sgriniau teitl gyda logos eich ysgol a'ch cwmni os dymunwch (holwch am eu caniatâd), ond nid yw'r rhain yn angenrheidiol.

Gall gynnwys PowerPoint neu sleidiau gyda throslais, diagramau, delweddau, ffotograffau, lluniadau ac ati, a gallwch gynnwys cerddoriaeth os dymunwch, ond gwnewch yn siŵr bod modd clywed eich lleisiau - yr hyn rydych chi'n ei ddweud sy'n cyfrif!

## Dylech gynnwys pawb yn eich tîm

Gwnewch yn siŵr fod pob aelod yn cymryd rhan yn y gwaith o wneud y fideo gan fod hwn yn gyflwyniad fideo i'r tîm. Byddwch yn greadigol - mae gan bawb sgiliau gwahanol y gallan nhw eu defnyddio!

## Cofiwch gynnwys eich athro a'ch cwmni

Gwnewch yn siŵr eich bod yn anfon eich fideo at eich athro i weld a yw'n cadw at bolisïau eich ysgol, er enghraifft, digidol a'r defnydd o TGCh, iechyd a diogelwch, diogelu ac ati. Cofiwch y bydd angen i'ch cwmni weld eich fideo hefyd.

## Caniatâd Fideo

- Bydd unrhyw fideos a gyflwynir i ni yn cael eu rhannu gyda'n haseswyr a noddwyr ein gwobrau, gyda llawer ohonynt yn beirianwyr proffesiynol mewn diwydiant. Gwnewch yn siŵr **nad oes unrhyw wybodaeth gyfrinachol** wedi'i chynnwys yn eich fideo am eich cwmni cyswllt.
- Sicrhewch fod eich cwmni cyswllt yn gweld eich fideo drafft cyn i chi ei gyflwyno a'ch bod yn ymgorffori eu hadborth yn y cynhyrchiad terfynol.
- Peidiwch â chynnwys unrhyw ddeunydd nad yw'n perthyn i chi (e.e. fideos cwmni, tudalennau gwefan sydd o bosibl â hawlfraint arnyn nhw ac ati).
- Peidiwch â rhannu unrhyw fideos yn **gyhoeddus** ar-lein. Os ydych chi'n defnyddio dulliau rhannu ffeiliau i gyflwyno'ch fideo, cyfeiriwch at yr adran ar **fformat** uchod.
- Os cewch eich dewis fel enillydd gwobr, bydd EESW/STEMCymru yn cysylltu â chi am ganiatâd i rannu eich fideo ar ein gwefan a chyfryngau cymdeithasol at ddibenion cyhoeddusrwydd/marchnata.
- Cofiwch hefyd ofyn am ganiatâd gan aelodau eich tîm i rannu unrhyw glipiau fideo y maent yn eu hanfon atoch!

## Awgrymiadau

- ✓ Cofiwch, nid oes rhaid i bob un ohonoch fod gyda'ch gilydd ar gyfer y fideo - gallwch recordio clipiau byr a'u golygu gyda'i gilydd i greu un fideo (gan ddilyn rheolau ymbellhau cymdeithasol!)
- ✓ Ni chewch eich beirniadu ar ansawdd golygu'r fideo; bydd yr hyn a ddywedwch a sut yr ydych yn cyflwyno eich prosiect yn gwneud llawer mwy o argraff arnom
- ✓ Os oes gennych luniau, modelau, prototeipiau neu hyd yn oed ddyluniadau CAD, cofiwch eu dangos i ni!
- ✓ Peidiwch ag anghofio, dim ond ar yr hyn rydych chi wedi'i anfon yn eich fideo y byddwn ni'n gallu eich barnu, felly meddyliwch yn ofalus am sut i gyfathrebu eich prosiect yn gryno a gwnewch yn siŵr bod popeth wedi'i gynnwys

## Dyddiad Cau

Gallwch naill ai e-bostio eich ymgais at submissions@eesw.org.uk neu ei rannu gyda ni drwy WeTransfer (neu ddull arall o rannu ffeiliau).

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **Dydd Mercher, 30 Medi 2020** i roi cymaint o amser â phosibl i dimau gysylltu ag aelodau'r tîm, athrawon a chwmnïau.